

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth GwE

Arwain Dysgu ac Addysgu – Llythrennedd a Rhifedd 2015 – 2016

“Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunan-wella, gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol” – ‘Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru’ (Llywodraeth Cymru, 2014)

Datgan Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2013-2014 bod ‘canfyddiadau arolygu wedi dangos, dro ar ôl tro dros y pum mlynedd diwethaf, fod cysylltiad rhwng ansawdd arweinyddiaeth ac ansawdd deilliannau ar gyfer dysgwyr’. Mae’r systemau ysgol mwyaf effeithiol yn pwysleisio pwysigrwydd arweinwyr da ar bob lefel, ac mae’r arweinwyr gorau yn canolbwyntio’n benodol ar arwain gwelliannau o ran dysgu ac addysgu ac ar helpu eu staff i wella eu medrau eu hunain.

Yn eu cyhoeddiad ‘Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion’ (Mehefin 2015), â Estyn ymlaen i ddweud bod ‘yr arweinwyr ysgol mwyaf llwyddiannus yn defnyddio strategaethau i nodi a meithrin potensial arwain eu holl staff’. Mae eu hargymhellion yn cynnwys yr angen i ysgolion ‘ddatblygu diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol i’r holl staff ar bob lefel yn eu hysgol’, ac i gonsortia rhanbarthol ‘ddarparu neu ddod o hyd i hyfforddiant effeithiol cyfrwng Cymraeg a Saesneg i arweinwyr ar bob lefel’.

Fel rhan o gynllun GwE i gefnogi ysgolion Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn addysgol hon, byddwn yn ymateb i’r argymhelliad hwn gan Estyn ac yn cynnig cyfle i arweinwyr llythrennedd a rhifedd ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ymhellach, yn ogystal â gwella eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r arferion mwyaf effeithiol yn y maes.

Mae gan arweinwyr llythrennedd a rhifedd effeithiol:

- wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o safonau a pherfformiad yr ysgol o ran llythrennedd/ rhifedd. Maent yn gwybod pa elfennau penodol sy’n gryfderau a pha rai sydd angen eu datblygu ymhellach. Byddant yn dadansoddi data’r profion cenedlaethol yn brydlon ac yn fanwl ac yn bwydo eu canfyddiadau i flaenoriaethau gwella’r ysgol am y flwyddyn i ddod.
- gwybodaeth gyfredol a pharhaus am safonau a darpariaeth llythrennedd/rhifedd trwy arferion megis craffu ar lyfrau, teithiau dysgu, triawdau dysgu ac ati, sy’n cyfrannu at hunan arfarniad manwl gywir.
- gwybodaeth am, ac yn defnyddio, ystod o strategaethau llawr dosbarth sy’n arwain at wella darpariaeth a chodi safonau. Byddant wedi cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol cyson mewn llythrennedd/rhifedd a bydd hyn wedi sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth a sgiliau a fydd yn eu galluogi i arwain gweddill staff yr ysgol trwy esiampl.
- hyder a sgiliau priodol i hyfforddi a datblygu staff eraill o fewn yr ysgol. Byddant yn gallu rhedru gwybodaeth berthnasol yn dilyn cyrsiau/cyfarfodydd ac yn datblygu i fod yr ‘arbenigwr mewnol’ yn y maes. Byddant hefyd yn cyfathrebu yn glir â rhieni a Llywodraethwyr trwy gyfrwng cyflwyniadau ac adroddiadau am waith yr ysgol yn y maes a’r datblygiadau diweddaraf.

Byddwn yn lansio'r rhaglen hon i ysgolion cynradd yn y lle cyntaf, a hynny yn ystod tymor yr hydref 2015. Bydd gwybodaeth bellach am fformat a chynnwys y rhaglen ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig yn dilyn yn ystod hanner cyntaf y tymor.

Trosolwg o'r rhaglen ar gyfer ysgolion cynradd

- Bydd pob sesiwn yn cynnwys mewnbwn gan dîm Partneriaid Cynorthwyol GwE, ysgol gyd-arweiniol neu ysgolion eraill a adnabuwyd gan GwE/Estyn am eu harferion effeithiol ym maes llythrennedd/rhifedd.
- Bydd cyfle i gydweithio a rhannu syniadau â chydweithwyr o ysgolion eraill sy'n gweithio ar flaenoriaethau tebyg.
- Bydd pecynnau hyfforddiant ar gael. GwE fydd yn darparu'r rhain, a gall mynychwyr eu defnyddio i hyfforddi staff yn ôl yn yr ysgol.
- Ymysg y pynciau a drafodir yn ystod y sesiynau fydd: dadansoddi data ac adnabod blaenoriaethau gwella; asesu, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu; arwain a chefnogi staff eraill; cynllunio cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn effeithiol; rheoli rhaglenni ymyriad yn effeithiol i sicrhau cynnydd pob disgybl; cysondeb a datblygiad sgiliau ar draws yr ysgol; monitro blaenoriaethau gwella.
- Yn ystod y cyfarfod cyntaf, byddwn yn gofyn i fynychwyr gwblhau holiadur dienw ar-lein yn nodi eu hanghenion datblygu. Bydd union gynnwys y cyfarfodydd dilynol yn cael ei deilwra mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn.
- Bydd tasgau i'w cwblhau rhwng pob sesiwn a fydd yn berthnasol i gynllun gwella'r ysgol o ran llythrennedd/rhifedd am y flwyddyn. Felly, ni ddylid eu hystyried fel 'gwaith ychwanegol', ond yn hytrach fel rhan o'r hyn fyddai'r arweinydd yn ei wneud beth bynnag. Disgwylir i'r mynychwyr adrodd yn ôl ar eu gwaith yn y sesiwn ddilynol.

Manylion ymarferol:

- Mae'r rhaglen yn agored i bob ysgol gynradd yn rhanbarth GwE.
- Nid oes cost i'r rhaglen, ond bydd angen i ysgolion dalu costau llanw eu hunain
- Mae'r rhaglen yn benodol ar gyfer arweinwyr llythrennedd a rhifedd. Os oes gan ysgol fwy nag un person yn cyflawni rôl arweinydd (e.e. un yn y Cyfnod Sylfaen ac un yn CA2), gallant gofrestru'r ddau pe dymument wneud hynny.
- Gall ysgolion anfon eu harweinydd rhifedd i'r sesiynau rhifedd a'u harweinydd llythrennedd i'r sesiynau llythrennedd pe dymument, ond dylent wneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau eu CGY am y flwyddyn a chan roi ystyriaeth i'r amser fydd ar yr arweinwyr ei angen allan o'r dosbarth, nid yn unig i fynychu'r sesiynau ond hefyd i gwblhau'r gwaith yn ôl yn yr ysgol.
- Bydd un diwrnod y tymor (9.00 – 4.00) ar gyfer arweinwyr rhifedd a diwrnod ar wahân ar gyfer arweinwyr llythrennedd. Bydd peth o'r cynnwys yr un fath, ond bydd peth cynnwys hefyd yn bwnc benodol.
- Darperir cinio

Cofrestru:

- Wrth gofrestru ar gyfer y rhaglen hon, byddwch yn ymrwymo i fynychu un diwrnod y tymor am y flwyddyn academaidd gyfan.
- Dylech gofrestru trwy anfon e-bost at sianlloydjones@gwegogledd.cymru gan nodi a ydych yn cofrestru ar gyfer y rhaglen llythrennedd neu rifedd.
- Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru fydd dydd Gwener 11 Medi 2015
- Cynhelir sesiynau tymor yr hydref rhwng 12 Hydref a 13 Tachwedd. Bydd uchafswm o 25 ym mhob sesiwn er mwyn hwyluso rhwydweithio a chydweithio effeithiol.
- Bydd y dyddiadau a'r lleoliadau yn cael eu trefnu ar ôl y dyddiad cau, yn ddibynnol ar lefel y diddordeb. Bydd y rhai hynny sydd wedi cofrestru yn derbyn yr wybodaeth hon erbyn dydd Gwener 18 Medi 2015